

2018 Rhif (Cy. )

2018 No. (W. )

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A40  
(Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfynau  
Cyflymder 40 mya a 50 mya a  
Dileu Cyfyngiadau) 2018

The A40 Trunk Road  
(Haverfordwest, Pembrokeshire)  
(40 mph & 50 mph Speed Limits  
and Derestriction) Order 2018

*Gwnaed* 21 Awst 2018

*Made* 21 August 2018

*Yn dod i rym* 24 Awst 2018

*Coming into force* 24 August 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A40, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2), 83(1), 84(1)(a), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A40 Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 82(2), 83(1), 84(1)(a), (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27(1) of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1), and after consultation with the Chief Officer of Police for Dyfed-Powys Police, make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfynau Cyflymder 40 mya a 50 mya a Dileu Cyfyngiadau) 2018 a daw i rym ar 24 Awst 2018.

**Title, Commencement and Interpretation**

1. The title of this Order is the A40 Trunk Road (Haverfordwest, Pembrokeshire) (40 mph & 50 mph Speed Limits and Derestriction) Order 2018 and it comes into force on 24 August 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

(1) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) a pharagraffau 59(3) ac 60(2) o Atodlen 8 iddi. Amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; sections 82(2) and 83(1) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 59(3) and 60(2). Section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Trosedd Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), schedule 8(2), paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Cyfyngiadau

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

### Dileu Cyfyngiadau

5. Bydd y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

### Dirymiadau

6. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Osgoi Hwlffordd, Dyfed) (Dileu Cyfyngiadau) 1994(3) a Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Withybush, Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfynau Cyflymder 40 mya a 50 mya) 2006(4) wedi eu dirymu.

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“lluoedd arbennig”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“y gefnffordd”) means the A40 London to Fishguard Trunk Road.

(2) Any reference in this Order to a numbered article or Schedule is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

### Restrictions

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

### Derestriction

5. The length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order shall cease to be a restricted road for the purposes of Section 81 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

### Revocations

6. The A40 Trunk Road (Haverfordwest Bypass, Dyfed) (De-restriction) Order 1994(3) and the A40 Trunk Road (Withybush, Haverfordwest, Pembrokeshire) (40 mph and 50 mph Speed Limits) Order 2006(4) are revoked.

(3) O.S. 1994/1745.

(4) O.S. 2006/1740 (Cy. 180).

(3) S.I. 1994/1745

(4) S.I. 2006/1740 (W. 180)

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

21 Awst 2018

*Richard Morgan*  
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

21 August 2018

*Richard Morgan*  
Head of Planning, Asset Management and Standards  
Welsh Government

**YR ATODLENNI**  
**Darnau o gefnffordd yr A40 yn Hwlfordd, Sir**  
**Benfro**

**ATODLEN 1**  
**Terfyn Cyflymder 40 mya**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 103 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Llwynhelyg hyd at bwynt 46 o fetrau i'r dde-dwyrain o'i chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Ffordd Aberteifi, gan gynnwys cerbyttfyrdd cylchredol Cylchfan Llwynhelyg a Chylchfan Ffordd Aberteifi.

**ATODLEN 2**  
**Terfyn Cyflymder 50 mya**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 103 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Llwynhelyg hyd at bwynt 646 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

**ATODLEN 3**  
**Dileu Cyfyngiadau**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 125 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Scotchwell hyd at bwynt 220 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y cylchfan honno.

**SCHEDULES**  
**Lengths of the A40 trunk road at Haverfordwest,**  
**Pembrokeshire**

**SCHEDULE 1**  
**40 mph Speed Limit**

The length of the trunk road that extends from a point 103 metres north of its junction with the northern side of Withybush Roundabout to a point 46 metres south-east of its junction with the south-eastern side of Cardigan Road Roundabout, including the circulatory carriageways of Withybush Roundabout and Cardigan Road Roundabout.

**SCHEDULE 2**  
**50 mph Speed Limit**

The length of the trunk road that extends from a point 103 metres north of its junction with the northern side of Withybush Roundabout to a point 646 metres north of that junction.

**SCHEDULE 3**  
**Derestriction**

The length of the trunk road that extends from a point 125 metres north of the centre-point of Scotchwell Roundabout to a point 220 metres north of the centre-point of that roundabout.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40  
(HWLFFORDD, SIR BENFRO) (TERFYNAU  
CYFLYMDER 40 MYA A 50 MYA A DILEU  
CYFYNGIADAU) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 82(2), 83(1), 84(1)(a), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 24 Awst 2018.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfynau cyflymder o 40 mya a 50 mya ac adfer y terfyn cyflymder cenedlaethol ar ddarnau o gefnffordd yr A40 yn Hwlffordd, Sir Benfro a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 22 Awst 2018, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau swyddfa arferol, yng Nghyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Freemans Way, Hwlffordd SA61 1TP neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1332527.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig parhaol/ 2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLENNI  
Darnau o gefnffordd yr A40 yn Hwlffordd, Sir  
Benfro**

**ATODLEN 1  
Terfyn Cyflymder 40 mya**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 103 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Llwynhelyg hyd at bwynt 46 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd ag ochr dde-ddwyrainiol Cylchfan Ffordd Aberteifi, gan gynnwys cerbyttyfyrdd cylchredol Cylchfan Llwynhelyg a Chylchfan Ffordd Aberteifi.

**THE A40 TRUNK ROAD (HAVERFORDWEST,  
PEMBROKESHIRE) (40 MPH & 50 MPH SPEED  
LIMITS AND DERESTRICTION) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under sections 82(2), 83(1), 84(1)(a), (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 24 August 2018.

The effect of the Order is to impose 40 mph and 50 mph speed limits and derestrict to the national speed limit lengths of the A40 trunk road at Haverfordwest, Pembrokeshire described in the Schedules to this Notice.

During a period of 6 weeks from 22 August 2018 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal office hours at Pembrokeshire County Council, County Hall, Freemans Way, Haverfordwest SA61 1TP or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1332527.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2018).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government

**SCHEDULES  
Lengths of the A40 trunk road at Haverfordwest,  
Pembrokeshire**

**SCHEDULE 1  
40 mph Speed Limit**

The length of the trunk road that extends from a point 103 metres north of its junction with the northern side of Withybush Roundabout to a point 46 metres south-east of its junction with the south-eastern side of Cardigan Road Roundabout, including the circulatory carriageways of Withybush Roundabout and Cardigan Road Roundabout.

**ATODLEN 2**  
**Terfyn Cyflymder 50 mya**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 103 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Llwynhelyg hyd at bwynt 646 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

**ATODLEN 3**  
**Dileu Cyfyngiadau**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 125 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Scotchwell hyd at bwynt 220 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y cylchfan honno.

**SCHEDULE 2**  
**50 mph Speed Limit**

The length of the trunk road that extends from a point 103 metres north of its junction with the northern side of Withybush Roundabout to a point 646 metres north of that junction.

**SCHEDULE 3**  
**Derestriction**

The length of the trunk road that extends from a point 125 metres north of the centre-point of Scotchwell Roundabout to a point 220 metres north of the centre-point of that roundabout.